bendigedig

Gorffennaf 9, 2017

DATGANIAD I'R WASG

GWYNETH GLYN YN RHYDDHAU ALBWM NEWYDD *TRO*

Bydd yr awdur, y bardd a'r cerddor Gwyneth Glyn yn rhyddhau ei halbwm newydd, *Tro*, ar label bendigedig ar y 29ain o Fedi. *Tro* yw'r albwm unigol ddiweddaraf gan un o artistiaid mwyaf diddorol a disglair Cymru. Mae cariad Gwyneth at iaith, a'i chrefft a'i dawn fel cyfansoddwraig yn amlwg yn y caneuon grymus hyn. Hefyd yn ymddangos ar yr albwm mae Seckou Keita, y chwaraewr kora adnabyddus o Senegal, a Rowan Rheinigans, enillydd Gwobr Werin BBC Radio 2.

Siwrnai angerddol ydi *Tro* a dylanwad magwraeth Gwyneth ynghyd â phrofiadau diweddar yn drwm arni. Siwrnai yn ôl at ei gwreiddiau – o Gaerdydd, lle bu'n byw am bum mlynedd, i'w bro enedigol; siwrnai'r galon o dywyllwch i oleuni, a siwrnai enaid o ryw ddiffeithwch pellennig i wyrddni ffrwythlon y man y mae'n perthyn iddo.

"Dyma'r caneuon mwya' gonast ac agos i 'nghalon i dw i wedi eu cyfansoddi erioed," meddai Gwyneth. "Maen nhw'n bersonol tu hwnt, a wnes i erioed ddychmygu, wrth eu sgwennu nhw, y bydden nhw'n cyrraedd clustiau'r cyhoedd! Ond mae'n brofiad gwefreiddiol cael eu rhannu nhw efo gweddill y byd."

Dydi cofleidio gwahanol ddiwylliannau ddim yn beth newydd yn hanes Gwyneth Glyn. Yn ddiweddar, cafodd y trac 'Moliannwn / Ishq Karo' o'i halbwm cywaith Cymreig / Indiaidd gyda Tauseef Akhtar, sef *Ghazalaw*, ei enwebu yng Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2 (Trac Traddodiadol Gorau), ac ar gorn y cywaith hwnnw fe'i gwahoddwyd hi i gefnogi Seckou Keita o Senegal ar ei daith 27 cyngerdd ar draws y DU yn 2015-16. Mae'r dylanwadau rhyngwladol i'w clywed yn gynnil ar yr albwm fentrus newydd hon, sy'n chwilio am y man lle mae Cymru yn cwrdd â'r byd, ac mae "molasses-sweet tones" (Buzz Magazine) llais gogleddol Gwyneth llawn mor hyfryd yn Saesneg ag yn ei mamiaith.

Ynghyd â'i chyfansoddiadau ei hun, mae Gwyneth hefyd yn cydnabod ysbrydoliaeth cerddoriaeth draddodiadol ar rai o draciau'r albwm: mae 'Y Gnawas' yn addasiad o 'Katie Cruel', cân werin Americanaidd/ Albanaidd.

“Mi glywais i’r gân yma am y tro cynta’n cael ei chanu gan Karen Dalton - hoff gantores Bob Dylan, yn ôl pob sôn. Mae’n gân am orfod rhoi heibio goron poblogrwydd er mwyn bod yn driw i chi’ch hun.”

‘Ffair’ yw cyfieithiad Gwyneth o’r gân werin Wyddelig ‘She Moved Through The Fair’. “Mae cyfieithu cân werin fel hel mwyar duon - mae ambell un yn mynnu glynu i’r gangen; gadael llonydd i’r rheiny sydd orau. Ond mae ambell un arall yn syrthio’n rhwydd i dy law. Un felly ydi hon,” meddai Gwyneth am ‘Ffair’.

Dyfyniad gan Joni Mitchell ysbrydolodd y trac ‘Far Ago’: “Helia di’r cythreuluaid i ffwrdd, a mi ân’ nhw â’r angylion efo nhw.” Meddai Gwyneth: “Mi wnaeth imi feddwl am rywun annwyl imi a driodd wneud yn union hynny.”

Mae’r cysondeb safon a’r farddoniaeth yng ngeiriau Gwyneth yn gwneud undod o’r caneuon hardd a thywyll hyn. Mae’r defnydd cynnil o’r kora, lapsteel, banjo, crwth a bansitar yn peri i gymysgedd o gyfansoddiadau traddodiadol a newydd befrio.

Clywir yma hefyd enillydd Gwobrau Gwerin BBC Radio 2, Rowan Rheingans (*Lady Maisery, The Rheingans Sisters*) yn canu ac yn chwarae banjo a bansitar. Cyfarfu’r ddwy yn sgil prosiect *Songs of Separation* yn 2016. Mae dau drac hefyd yn cynnwys Seckou Keita, dehonglwr mwyaf dawnus ac arloesol ei genhedlaeth ar y kora (telyn Gorllewin Affrica). Ar y trac *Trafaeliais / Kidé-magni* mae llais gogleddol cyfoethog Gwyneth yn gweu ‘Tatono’ - alaw gyfareddol a gyfansoddwyd gan Seckou i’w ewythr - o amgylch y gân werin *Trafaeliais y Byd*.

Mae *Tro* hefyd yn cynnwys doniau Dylan Fowler, Jordan Price-Williams, Mark O’Connor, Patrick Rimes a Gillian Stevens. Cynhyrchwyd yr albwm gan Dylan Fowler (*Lady Maisery, The Rheingans Sisters*) a’i recordio yn Stiwdios Felinfach, Y Fenni.

Tro yw’r albwm gyntaf i gael ei ryddhau ar label newydd, *bendigedig*, partneriaeth annibynnol rhwng Theatr Mwldan, Aberteifi ac ARC Music Productions International Ltd. Bydd Gwyneth Glyn yn cefnogi Catrin Finch a Seckou Keita ar eu taith yng Ngwanwyn 2018.

DIWEDD/

Cysylltwch â Tamsin Davies tamsin@mwldan.co.uk / 01239 623925 gydag unrhyw ymholiadau i’r cyfryngau.